# SL(6)161 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020/1609 ("y prif Reoliadau"), a hynny o 18 Chwefror 2022. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y bydd y prif Reoliadau a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 yn dod i ben ar 28 Mawrth 2022, yn hytrach na 25 Chwefror 2022.

Mae'r Rheoliadau hyn yn:

- hepgor rheoliad 16A o'r prif Reoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n gyfrifol am fangre benodol gymryd mesurau rhesymol i sicrhau nad yw oedolion yn y fangre onid ydynt yn meddu ar yr hyn y cyfeirir ato'n gyffredin fel "pàs COVID" (a gwneud diwygiadau canlyniadol) gan nad yw'r gofyniad hwnnw bellach yn gymesur yn wyneb y sefyllfa iechyd cyhoeddus bresennol.

- diwygio'r prif Reoliadau i estyn yr esemptiad ar gyfer personau sydd wedi eu brechu'n llawn sy'n gysylltiadau agos i bersonau sy'n cael canlyniad positif am y coronafeirws fel nad oes rhaid i gysylltiadau agos hunanynysu mwyach os ydynt wedi cwblhau cwrs o ddosau o unrhyw frechlyn sydd wedi ei awdurdodi at ddibenion Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/126(Cy. 41)) neu o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor (cyn y diwygiad, dim ond os oeddent wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn sydd wedi ei awdurdodi yn y Deyrnas Unedig yr oedd cysylltiadau agos wedi eu hesemptio).

- mewnosod darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â'r diwygiad i'r esemptiad ar gyfer cysylltiadau agos sydd wedi eu brechu'n llawn a dirymu darpariaeth drosiannol sydd wedi ei disbyddu.

Effaith y Rheoliadau hyn yw:

- ni fydd rhaid i leoliadau a oedd yn gorfod cadw at y gofynion Pàs COVID domestig yn flaenorol – digwyddiadau mawr dan do ac awyr agored, clybiau nos, sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd – bellach yn gorfod cyfyngu ar fynediad i unigolion sydd wedi'u brechu neu'r rheini sydd wedi cael prawf negatif (neu sydd wedi'u heithrio ar sail feddygol) yn unig, fel y nodwyd ar bàs COVID.

- bydd unrhyw un sy'n cael ei adnabod fel cysylltiad agos yng Nghymru yn cael ei eithrio o'r gofyniad i hunanynysu am 10 diwrnod os ydynt wedi'u brechu'n llawn gyda brechlyn a gymeradwywyd fel y diffiniwyd yn y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022.

## Y weithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn eu bod yn gymesur.*
>
> *Mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag eraill) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod dilys, sef*

*diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Rhaid hefyd cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i reoli cyfradd trosglwyddiadau'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd cymesur a brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.